# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 3 Senedd a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 29 Tachwedd 2023

Amser: 09.03 - 12.27

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13535

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jayne Bryant AS (Cadeirydd)<br>James Evans AS<br>Heledd Fychan AS<br>Laura Anne Jones AS<br>Ken Skates AS<br>Buffy Williams AS |
| Tystion: | Jane Hutt AS, Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip<br>Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg<br>Julie Morgan AS, Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru<br>Nicola Edwards, Llywodraeth Cymru<br>Amelia John, Llywodraeth Cymru<br>Rachel Thomas, Comisiynydd Plant Cymru |

| | |
|---|---|
| | Rebecca Johnson, Llywodraeth Cymru<br><br>Louise Brown, Llywodraeth Cymru<br><br>Gill Huws-John, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br><br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br><br>Catherine McKeag (Swyddog)<br><br>Samiwel Davies (Cynghorydd Cyfreithiol)<br><br>Sian Hughes (Ymchwilydd)<br><br>Lucy Morgan (Ymchwilydd)<br><br>Sian Thomas (Ymchwilydd) |

## 1 Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) - trafod y cwmpas a'r dull gweithredu

1.1 Trafododd y Pwyllgor gwmpas y broses o graffu ar y Bil a dull y Pwyllgor o wneud hynny.

## 2 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? - cyflwyniad o’r canfyddiadau o gyfweliadau â theuluoedd

2.1 Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad o’r canfyddiadau o gyfweliadau â theuluoedd.

## 3 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.2 Anfonodd Laura Jones ymddiheuriadau o eitem 6 y cyfarfod.

1.3 O dan Reol Sefydlog 17.24A datganodd James Evans AS fod ei Nai yn aros am asesiad ADY.

## 4 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? - sesiwn dystiolaeth 12

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

4.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i drafod ymhellach rai o'r materion a godwyd a gyda'r cwestiynau na chawsant eu gofyn.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 6 a 9

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? - trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywodd yn ystod y sesiwn flaenorol.

## 7 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2022 - 2023

7.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith y Comisiynydd yn ei Hadroddiad Blynyddol.

7.2 Cytunodd y Comisiynydd i ddarparu dadansoddiad fesul awdurdod lleol o nifer yr ymweliadau a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod hwn.

## 8 Papurau i'w nodi

8.1 Cafodd y papurau eu nodi.

8.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Weinidog y Gymraeg ac Addysg gyda'r materion a godwyd yn y llythyr gan Gomisiynydd y Gymraeg.

## 9 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2022 - 2023: trafod y dystiolaeth

9.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywodd yn ystod y sesiwn flaenorol.

9.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i dynnu sylw at y materion a gododd y Comisiynydd ynghylch Tlodi Plant.